

OpenDoor

Rhifyn 19

Y Cylchgrawn ar gyfer ffrindiau a chefnogwyr Y Brifysgol Agored



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Mae eich cefnogaeth yn parhau i drawsnewid dyfodol pobl

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o Drws Agored, y cylchgrawn sy'n benodol ar eich cyfer chi, deulu gwyh Y Brifysgol Agored o gefnogwyr a rhoddwyr hael.

Yn y rhifyn hwn, mae gennym gymaint i'w ddathlu. I ddechrau, mae'n bleser gennym rannu llwyddiant ein Diwrnod Rhoi cyntaf erioed. Ym mis Gorffennaf, daeth mwy na 1,530 o aelodau o deulu'r Brifysgol Agored ynghyd i godi miloedd o bunnoedd i'n Cronfa Dyfodol Agored. Roedd y Diwrnod Rhoi yn gyfle anhygoel i gyn-fyfrwyr, myfyrwyr a staff ddod ynghyd dros 36 awr wych i ailgynllunio'r dyfodol, gan gynnig mwy o ysgoloriaethau a bwrsariau a all newid bywydau. Gallwch ddarllen rhagor am hyn ar dudalen 6.

Rydym hefyd yn rhannu rhai o'r prosiectau arloesol rydych wedi bod yn eu cefnogi dros y blynyddoedd, yn cynnwys y Labordy Rhyngweithio Cyfrifiadurol i Anifeiliaid (tudalen 8) a'n gwaith Datblygu Rhyngwladol pwysig (tudalen 10).

Roeddem am rannu'r datblygiadau gwyh hyn gan eu bod yn bosibl diolch i'ch cefnogaeth a'ch haelioni chi – mae'r gwahaniaeth sy'n cael ei wneud i gymaint o fywydau a chymunedau yn ysbrydoledig ac yn dangos pŵer cyfunol dyngarwch.

Fel bob amser, rydym mor ddiolchgar am eich cefnogaeth barhaus. Rydych chi'n helpu pobl i drawsnewid eu bywydau er mwyn cael dyfodol gwell.

Diolch.



Karen Hart
Dirprwy
Cyfarwyddwr
Datblygu

Yn y rhifyn hwn o Open Door

- 3** Y newyddion diweddaraf am y Gronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl
Y seren opera, Laura Wright, yn dod yn llysgennad ar gyfer y Gronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl.
- 4** Mae Charlotte yn teimlo fel petai hi wedi ennill y loteri
O'r diwedd, gall Charlotte gyflawni ei breuddwyd o astudio ar gyfer gradd mewn Mathemateg. Rydyn ni'n clywed ei stori.
- 5** Gwaddol yn rhoi gobaith i ffoaduriaid
Anrhydeddu bywyd Heidi Hillman, ffoadur Iddewig a oedd yn hyrwyddwr brwdfrydig o ddysgu gydol oes.
- 6** Diwrnod Rhoi
Dathlu Diwrnod Rhoi cyntaf Y Brifysgol Agored – llwyddiant anferth diolch i'ch cefnogaeth chi.
- 8** Helpu cŵn i wella bywydau
Y modd y mae ymchwil i gŵn yn helpu i wella bywydau pobl a chanfod camau cynnar canser.
- 10** Gwneud byd o wahaniaeth
Y modd rydych chi'n helpu athrawon yn Affrica Is-Sahara ac India i wella ansawdd addysg.
- 12** Mynd i'r afael â hiliaeth
Sut mae'r Brifysgol Agored a Prifysgolion Santander yn bwriadu mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol mewn addysg uwch.

Ar y clawr


Ci sy'n canfod cyflyrau meddygol; rhan o waith ymchwil Labordy Rhyngweithio Cyfrifiadurol i Anifeiliaid – darllenwch fwy ar dudalen 8

Cysylltwch â ni

 alumni.open.ac.uk

 giving@open.ac.uk

 01908 655 044

 **The Development Office**
The Open University
Walton Hall, Milton Keynes, MK7 6AA

Mae'r Brifysgol Agored wedi'i chorffori drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriadig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestrredig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae ein polisi preifatrwydd yn giving.open.ac.uk/privacy yn nodi sut mae'r Swyddfa Datblygu yn cael gafael ar eich data ac yn eu rheoli, eu defnyddio a'u diogelu.

Y seren opera Laura Wright yn dod yn llysgennad newydd ar gyfer y Gronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl



Mae'r Gronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl (y Gronfa) yn darparu addysg Prifysgol am ddim i Gyn-filwyr anabl, ac mae'n ffodus o gael cefnogaeth ei llysgennadon, y mae pob un ohonyn nhw yn chwarae rôl hanfodol yn hyrwyddo'r Gronfa a'r effaith a gaiff. Y llysgennad diweddaraf i ymuno â theulu'r Brifysgol Agored ac i'n helpu i ledaenu'r gair am y Gronfa yw'r fezzo-soprano glodwiw, Laura Wright.

Mae Laura yn cyflwyno Songs of Praise ar y BBC yn rheolaidd, a hi yw un o artistiaid mwyaf llwyddiannus y degawd ar ôl iddi ennill cystadleuaeth Chorister of the Year y BBC yn 2005. Mae bellach yn fezzo-soprano Seisnig lwyddiannus a hi oedd canwr swyddogol cyntaf erioed tîm rygbi Lloegr. Mae Laura am wneud mwy i helpu cyn-filwyr ac mae'n gyffrous i fod yn llysgennad i'r Gronfa, gan ei bod yn credu bod adsefydlu yn allweddol.

“ Mae angen i ni roi cymaint â phosibl o help i gyn-filwyr, a dyna pam y mae'r Gronfa mor bwysig.

Gwn o addysgu – rwy'n cynnal tua 8 gweithdy canu bob wythnos ar gyfer Academi Celfyddydau'r Milwyr – mai'r hyn sydd ei angen yw eu bod yn adsefydlu mewn cymdeithas unwaith eto. Maen nhw wedi dweud wrthyf fod y gerddoriaeth rydym yn ei rhannu yn fath o adsefydlu.

Laura Wright



Pam y mae angen ein help ar gyn-filwyr

Yn ôl ystadegau blynyddol y Partneriaeth Pontio Gyrfa, mae cyn-filwyr yn llawer llai tebygol o fod â gradd o gymharu â'u cymheiriaid nad ydynt yn gyn-filwyr, a allai olygu eu bod dan anfantais yn y farchnad swyddi. Hefyd, mae adroddiad gan Deloitte yn dangos bod amcangyfrif o 44% o gyn-filwyr anabl yn cael trafferth dod o hyd i swydd gynaliadwy a gwerth chweil.

Rydym yn gweithio i newid hynny. Mae'r Gronfa yn cynnig ysgoloriaethau bob blwyddyn, a chaiff ffioedd y rheini sy'n cael yr ysgoloriaeth eu talu ar eu rhan. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus hefyd yn cael cynnig cymorth gyrfaoedd ac anabledd arbenigol pellach, ynghyd â chyfle i astudio am ddim. Mae hyn yn golygu bod ganddynt y siawns orau bosibl o baratoi ar gyfer bywyd y tu allan i'r lluoedd arfog.

Cymerodd Laura ran yn ein Diwrnod Rhoi drwy drydar ei chefnogaeth ac annog ei dilynwyr i gymryd rhan!

LauraWright @thelaurawright · Jul 7

Rwy'n llysgennad balch ar gyfer Cronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl Y Brifysgol Agored sy'n cynnig addysg am ddim i'n harwyr yn y lluoedd arfog. Mae'r Brifysgol Agored wrthi'n codi arian i'r Gronfa fel rhan o'i Diwrnod Rhoi cyntaf

Gyda help Laura, bydd ein hysgoloriaethau yn cyrraedd mwy o bobl, yn enwedig y rheini sydd angen cymorth a chyfeiriad: “Mae ysgoloriaethau fel y rheini a gynigir gan Y Brifysgol Agored mor hanfodol am eu bod yn rhoi ffocws a chyfeiriad, sy'n arwain at fwy o hyder a chyfleoedd newydd” meddai Laura.

Rhoi ysgogiad ac ymdeimlad o ddiben i gyn-filwyr

Amcangyfrifir bod tua 2.6 miliwn o gyn-filwyr yn byw yn y DU sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac sydd wedi cysegru eu bywydau i ddiogelu'r Genedl.

Cyn-filwyr sy'n cael eu rhyddhau'n annisgwyl oherwydd anabledd, ac sy'n aml heb baratoi'n ddigonol ar gyfer bywyd y tu allan i'r lluoedd arfog.

Dyna pam y lansiodd Y Brifysgol Agored Gronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl gyntaf y DU yn 2018. Ers iddi gael ei sefydlu, mae'n bleser gennym ddweud bod y Gronfa wedi cefnogi mwy na 160 o gyn-filwyr anabl, a anafwyd wrth wasanaethu neu oherwydd eu gwasanaeth, i ddechrau eu taith gyda'r Brifysgol Agored, gan eu helpu i bontio i fywyd fel sifiliaid a rhoi eu sgiliau gwerthfawr ar waith yn y gweithle.

Fel y dywed Laura: “Mae cyn-filwyr y lluoedd arfog wedi'u hyfforddi i gael ffocws a chymhelliant ond mae cymaint ohonyn nhw'n colli hynny pan fyddan nhw'n rhoi'r gorau i wasanaethu, a gall fod yn arbennig o anodd i'r rheini sydd ag anabledd. Mae'r Gronfa yn rhoi diben a chymhelliant yn ôl yn eu bywydau, mae'n ychwanegu at eu cymwysterau, ac mae'n gwella eu siawns o gael gyrfa hirhoedlog.”

Diolch

Hoffwn ddiolch yn fawr i Laura am dderbyn ei rôl fel llysgennad diweddaraf y Gronfa, ac i bawb sydd wedi cefnogi'r rheini sydd wedi derbyn yr ysgoloriaeth gyda'ch rhoddion hael. Mae eich ymrwymiad i gefnogi myfyrwyr yn ysbrydoledig ac mae'n helpu cyn-filwyr anabl i gael pwrpas mewn bywyd y tu allan i'r lluoedd arfog.

 **Dysgwch fwy am y Gronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl**

www.bit.ly/OU-DVSF



**CRONFA
DYFODOL
AGORED**
**YSGOLORIAETHAU
GOFALWYR**

Mae Charlotte, sy'n ofalwr, yn teimlo fel petai hi wedi ennill y loteri

Wyddech chi y bydd 3 allan o 5 o honom yn mynd yn ofalwr ar ryw adeg yn ein bywydau? Yn aml, caiff gofalwyr eu gwthio y tu hwnt i'w terfynau yn emosynol, yn gorfforol ac yn ariannol – mewn sawl achos ar draul eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae'n rôl ddiddiolch ac yn un sy'n galw am lawer o ymrwymiad ac ymroddiad.

Caiff llawer o ofalwyr eu gorfodi i ohirio eu gyrfaedd a'u dyheadau eu hunain dros dro am nad oes ganddyn nhw'r amser na'r arian i astudio ar gyfer addysg uwch. I ofalwyr ifanc, gall olygu eu bod nhw ddwywaith yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg yn y DU sy'n golygu eu bod yn wynebu risg o fod yn ddi-waith am nad oes ganddyn nhw'r sgiliau a'r hyder sy'n ofynnol i fod yn rhan o'r gweithlu.

Mae'r Gronfa Ysgoloriaeth i Ofalwyr yn cydnabod hyn a chafodd ei chreu i roi cyfleoedd i'r rheini sy'n gofalu am eraill.

Erbyn mis Hydref 2021, bydd y Gronfa wedi darparu 90 o ysgoloriaethau llawn Y Brifysgol Agored i ofalwyr, a wnaed yn bosibl drwy gefnogaeth barhaus teulu'r Brifysgol Agored. Mae'r ysgoloriaethau hyn yn helpu i leddfu'r rhwystrau ariannol, gan alluogi gofalwyr i feithrin sgiliau gwerthfawr a chael addysg a all newid eu bywydau.

Mae cael ysgoloriaeth yn newid bywydau, fel y gwelwn o stori Charlotte* a gafodd un o'r Ysgoloriaethau i Ofalwyr cyntaf gan Y Brifysgol Agored yn 2020, diolch i haelioni cyn-fyfyrrwyr.

“Roeddwn i wrth fy modd pan glywais fy mod i wedi bod yn llwyddiannus” meddai Charlotte. “Dydw i ddim wedi ennill y loteri erioed, ond mae hyn yn gwneud i mi deimlo fel petawn i wedi gwneud hynny! Mae'n anodd credu fy mod i wedi cael cyfle mor wych.”

Charlotte yw'r prif ofalwr yn ei theulu. Mae'n cefnogi ei mam sydd ag anaf difrifol i'w hymennydd, nam gwybyddol ac iselder mynych, ei thad sydd ag awtistiaeth ac sydd wedi gorfod cwtogi ei oriau gwaith yn ddiweddar, a chwaer iau sydd ag awtistiaeth, ADHD, anawsterau dysgu

sylweddol, gorbryder ac iselder cronig. Charlotte sy'n gyfrifol am fynd â'i chwaer i'r ysgol bob dydd, ac mae'n mynd a'i mam a'i thad i apwyntiadau meddygol ac ar ymweliadau teuluol. Mae'n dal i ddod o hyd i'r amser i fynd i siopa â'i chwaer pan fydd hi'n ddigon iach, ac i barhau â'i hastudiaethau ei hun. Mae gan Charlotte broblemau iechyd ei hun, yn cynnwys ADHD, awtistiaeth a gorbryder, ond nid yw'n gadael i hynny ei hatal rhag canolbwyntio ar ei breuddwydion.

“ O ystyried fy anawsterau fy hun ac amgylchiadau fy nheulu, Y Brifysgol Agored oedd yr unig ffordd y gallwn ddilyn cwrs gradd. Oherwydd fy awtistiaeth, rwy'n cael anawsterau â dealltwriaeth lythrennol mewn sawl pwnc ond rwyf bob amser wedi mwynhau a deall mathemateg.”

Roedd ganddi freuddwyd o gael gradd mewn Mathemateg, a oedd yn nod personol iddi, ac mae'n gwybod y bydd yn ei rhoi ar y llwybr cywir o ran dod o hyd i yrfa werth chweil yn y dyfodol. Mae'r hyblygrwydd o astudio gyda'r Brifysgol Agored yn ei galluogi i barhau â'i hastudiaethau o amgylch ei chyfrifoldebau gofalu, gan gael gwared ar lawer iawn o straen y byddai wedi'i wynebu fel arall.

Mae Charlotte yn ymwybodol o'r ffaith bod gan lawer o ofalwyr fel hi fywydau heriol, gan ofalu am eu teulu a'u ffrindiau am oriau maith yn ddi-dâl. Mae cyni ariannol yn aml yn dod law yn llaw â gofalu, ond gall y Gronfa Ysgoloriaeth i Ofalwyr gael gwared ar bryderon o ran dyledion myfyrwyr i rai o'r gofalwyr hyn, ac, fel mae Charlotte yn ei ddweud, “mae ysgoloriaeth yn weithred enfawr o gydnabyddiaeth a charedigrwydd i'r bobl sy'n gofalu'n ddiddiolch am eraill.”

Ers lansio'r Gronfa Ysgoloriaeth i Ofalwyr, mae mwy o ofalwyr wedi gwneud cais i astudio gyda ni na'r hyn y mae gennym lefydd ysgoloriaeth ar eu cyfer. Gyda'ch cefnogaeth barhaus, gallwn sicrhau bod mwy o lefydd ysgoloriaeth ar gael fel nad yw pobl fel Charlotte yn colli allan ar y cyfle i ddilyn eu breuddwydion o gael addysg.

Cefnogwch fwy o ofalwyr heddiw
www.open.ac.uk/donate

Gwaddol yn rhoi gobaith ym myd addysg i ffoaduriaid

Mae Rhoddion mewn Ewyllysiau yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau cymaint o bobl ac o ran helpu'r Brifysgol Agored i fod yn agored i bawb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rheini sydd eisoes wedi cofio am Y Brifysgol Agored gyda rhodd yn eu Hewyllys.

Yma, rydym yn clywed hanes hynod Heidi Hillman a adawodd waddol i'r Brifysgol yn ei Hewyllys. Roedd gan Heidi wir awch am ddsygu, ac roedd yn unigolyn chwilfrydig, hael a chreadigol. Roedd hefyd yn frwdfrydig am dorri rhwystrau i addysg a rhannodd genhadaeth Y Brifysgol Agored o fod yn 'agored i bawb' ni waeth beth fo'u cefndir.

Ffoadur Iddewig oedd Heidi, a fodd o Awstria'r Natsiaid yn 1939 i ddechrau bywyd newydd yn y DU gyda'i theulu. Yn 1930au, roedd Iddewon yn yr Almaen ac Awstria yn ceisio dianc i gael rhyddid a lloches ddiogel am eu bod yn cael eu hymldd fwy a mwy yno. Anfonwyd ei chworydd i Brydain drwy'r Kindertransport, a dilynodd Heidi a'i mam sawl mis yn ddiweddarach yng ngwanwyn 1939. Roedd tad Heidi yn ddeintydd cymwys, a cheisiodd gasglu'r cymwysterau oedd eu hangen i ymarfer yn Llundain, ond ni lwyddodd i sefydlu ei hun a sefydlu practis am sawl blwyddyn arall. Ymysg ei gleientiaid roedd aelodau o deulu Freud a sawl actor a cherddor nodedig. Ar ddiwedd y rhyfel, penderfynodd Heidi a'i theulu aros yn Llundain a llwyddodd i aros yno'n barhaol yn y pen draw. Yn 1947, cawsant eu gwneud yn wladolion Prydeinig, ac yn fuan wedyn, daeth Henry, tad Heidi, yn ddeintydd gyda'r GIG.

Gadawodd Heidi yr ysgol pan oedd yn 16 oed a bu'n gweithio fel golygydd ar sawl cyfnodolyn, ac yna fel cynorthwydd addysgu pan oedd yn magu ei dau fab. Ddegawdau yn ddiweddarach, cofrestrodd â'r Brifysgol Agored i astudio'r Dyniaethau gyda Hanes Celf, gan raddio'n 63 oed – diwrnod balch iawn i Heidi a'i theulu!

Roedd yn hyrwyddwr brwdfrydig o ddsygu gydol oes, ac roedd bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o ddsygu, meithrin ei sgiliau artistig, gwella ei haddysg, a magu hyder. Roedd yn deall pwysigrwydd dysgu, y modd y mae'n gwneud pobl yn fwy goddefgar o eraill, a'r modd y gall agor y drws i gyfleoedd newydd.

Er mwyn anrhydeddu gwaddol Heidi, cynhaliwyd cynhadledd ar 14 Mehefin 2021 yng Nghymru i gyd-fynd â'r Wythnos Ffoaduriaid.

Daeth â ffoaduriaid a cheiswyr lloches ynghyd, a'r gwneuthurwyr polisi, y darparwyr addysg a'r cyflogwyr sy'n eu cefnogi. Roedd Heidi yn falch iawn o fod wedi graddio o'r Brifysgol Agored, a dangoswyd ei thaith o fod yn ffoadur

i fod yn fyfyrwr hyn yn Y Brifysgol Agored mewn ffilm fer ar ddechrau'r gynhadledd, i anrhydeddu ei bywyd a'i rhodd hael.

Yn ystod y gynhadledd, anogwyd y cyfranogwyr, yr oedd llawer ohonynt yn fudwyr dan orfod eu hunain, i rannu gwybodaeth, yn cynnwys y prif rhwystrau roeddent yn eu hwynebu o ran dysgu a chyflogaeth. Rhannwyd datrysiadau adeiladol ac argymhellion a byddant yn ymddangos mewn adroddiad maes o law.



Heidi Hillman

Fel y gwelwyd ymysg Affganiaid yn ddiweddar, yn aml, bydd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cyrraedd y DU ar ôl cael profiadau trawmatig yn eu gwledydd brodorol ac wrth deithio i'r DU. Mae'r Brifysgol Agored yn gweithio er mwyn ennill statws Prifysgol Noddfa ac er mwyn sicrhau ein bod yn agored i bawb ac yn meithrin diwylliant o groeso a llyengarwch i ffoaduriaid.

Mae Cymru'n gobeithio cael ei henwi yn Genedl Noddfa gyntaf y DU, a dyna pam roedd Cymru'n lle pwysig i gynnal y digwyddiad. Fodd bynnag, mae effaith gwaddol Heidi i'w gweld ledled y DU. Bydd ei gwaddol yn helpu'r Brifysgol Agored i feithrin diwylliant croesawgar i fyfyrwyr sy'n ffoaduriaid, gan ehangu'r mynediad i addysg. Bydd rhodd Heidi a'r gynhadledd ei hun yn chwarae rôl hanfodol yng nghais Y Brifysgol Agored i gael statws Prifysgol Noddfa.

Rydym mor ddiolchgar i Heidi am adael gwaddol i'r Brifysgol Agored – credwn fod y gynhadledd wedi cael effaith enfawr ac y bydd yn helpu i dynnu sylw at y rhwystrau sy'n wynebu ffoaduriaid i fanteisio ar addysg uwch a datrysiadau. Fel aelod gwerthfawr o'n teulu yn Y Brifysgol Agored, byddwch yn gwybod bod gan Y Brifysgol Agored rôl hanfodol i'w chwarae yn sicrhau bod addysg yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb. Oherwydd Heidi, ac aelodau eraill ein teulu o gyn-fyfyrrwyr sydd â straeon anhygoel o wydnwch yn wyneb adfyd, rydym yn ceisio bod yn well a sicrhau ein bod yn anrhydeddu ein hymrwymiad o fod yn agored i bawb.

Oherwydd y pandemig, nid ydym wedi gallu dadorchuddio plac Heidi yn ein Gardd Waddol ond os byddwch chi, fel Heidi, yn penderfynu gadael rhodd yn eich Ewyllys i'r Brifysgol Agored – neu os ydych chi eisoes wedi gwneud hynny – byddem yn croesawu'r cyfle i siarad â chi am gael eich cydnabod ar blac arbennig, i gael ei arddangos yn ein Gardd Waddol brydferth pan gaiff eich rhodd ei derbyn.

Gwylwch y gynhadledd

➤ www.bit.ly/HEFFMconference

Ffilm fer am fywyd Heidi

➤ www.bit.ly/heidihillman

➤ **Cysylltwch â ni i gael sgwrs anffurfiol neu i ddsygu mwy am waddolion**

giving@open.ac.uk
01908 659 141

*Mae enw Charlotte wedi'i newid i ddiogelu ei phreifatrwydd



Diwrnod Rhoi Y Brifysgol Agored

diolch

Ar 6 a 7 Gorffennaf, llwyddodd teulu'r Brifysgol Agored i greu hanes. Daeth mwy na 1,500 o gyn-fyfrwyr, staff a myfyrwyr ynghyd i gefnogi Diwrnod Rhoi cyntaf erioed y Brifysgol, her 36-awr gyffrous i godi arian i'r Gronfa Dyfodol Agored.

Cyda'i gilydd, cododd teulu anhygoel Y Brifysgol Agored gyfanswm gwyth o £158,560! Mae eich holl gefnogaeth anhygoel yn golygu y gellir cynnig hyd yn oed mwy o ysgoloriaethau a bwrsariau a all newid bywydau i fyfrwyr a fyddai'n colli allan ar addysg fel arall.

Diolch i chi, bydd mwy o gyn-filwyr anabl, gofawrwr a myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cael y cyfle i ailgynllunio eu dyfodol.

36 awr i ailgynllunio'r dyfodol

O'r foment y dechreuodd y paratodau ar gyfer Diwrnod Rhoi cyntaf Y Brifysgol Agored, bu ein cymuned wych yn cefnogi. O wneud eich rhoddion, i gyflawni eich heriau codi arian eich hunain ac annog eich ffrindiau a'ch teulu i gymryd rhan – daeth teulu'r Brifysgol Agored allan yn eu lluoedd!

Gwelwyd sawl her arian cyfatebol yn ystod y Diwrnod Rhoi hefyd er mwyn helpu eich rhoddion i fynd ymhellach. Rydym mor falch bod rhoddwyr wedi helpu i gyflawni pob her a sicrhau bod pob ceiniog ychwanegol o arian cyfatebol ac arian o heriau yn cael ei ddatgloi'n llawn.

Diolch i bawb a gefnogodd ar y diwrnod ac a ddaeth ynghyd i ddangos y gall pŵer cyfunol dyngarwch ailgynllunio dyfodol pobl.

£158,560



Codwyd mewn 36 awr

1,500+



Rhoddwyr o bob rhan o deulu'r Brifysgol Agored

Un elfen arbennig o'r diwrnod oedd amrywiaeth o arian cyfatebol ac arian o heriau i sicrhau bod eich rhoddion yn mynd hyd yn oed yn bellach, yn cynnwys cyfle i dreblu rhoddion i'r Gronfa Ysgoloriaethau i Gyn-filwyr Anabl.

Ailgynllunio dyfodol un myfyrwr ar y tro

Rydym yn credu na ddylai ble rydych chi'n dechrau mewn bywyd gyfyngu ar ble y gallwch fynd. Y dylai pawb, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, gael y cyfle i gyflawni eu potensial. Dyna pam y cafodd y Gronfa Dyfodol Agored ei chreu; i gynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariau i fyfrwyr a all gollu allan ar ddysgu sy'n newid bywydau fel arall.

Gyda'ch cefnogaeth barhaus, yn cynnwys y swm anhygoel a godwyd yn ystod ein Diwrnod Rhoi cyntaf, gyda'n gilydd, gallwn barhau i gael gwared ar y rhwystrau i addysg. Mae eich rhoddion yn helpu cyn-filwyr anabl i ailadeiladu eu bywydau yn dilyn heriau anodd ac yn sicrhau nad yw gofawrwr sy'n gwneud gwaith diddiolch yn gorfod troi cefn ar eu dyheadau. Mae eich haelioni hefyd yn cynnig achubiaeth i fyfrwyr ac yn sicrhau y gallwn gynnig cymorth ariannol hanfodol sy'n eu galluogi i barhau i weithio tuag at eu breuddwydion.

Ar ran holl fyfrwyr ddoe a heddiw y caiff eu bywydau eu newid am byth diolch i'ch haelioni chi – hoffem ddweud **diolch yn fawr iawn!**



Rydym mor ddiolchgar i chi am gefnogi ein Diwrnod Rhoi cyntaf erioed a sicrhau ei fod yn gymaint o lwyddiant, drwy gyfnod mor anodd i bawb. Diolch i'ch haelioni sy'n helpu i ddileu'r rhwystrau i addysg, bydd breuddwydion llawer o unigolion yn cael eu gwireddu.



Jhumar Johnson
Cyfarwyddwr Swyddfa'r Is-ganghellor



STORI BRADLEY

Y modd yr helpodd Futuremakers i sicrhau bod y Diwrnod Rhoi yn llwyddiant

I gefnogi'r Diwrnod Rhoi, dewisodd rhai pobl roi, dewisodd eraill fod yn Futuremakers. Trefnodd y gwirfoddolwyr hyn sy'n codi arian eu gweithgareddau eu hunain i godi arian ar gyfer ysgoloriaethau a bwrsariau a all newid bywydau. O gwisiau ar-lein i deithiau cerdded natur, meddyliodd Futuremakers am ffyrdd creadigol o godi ymwybyddiaeth ac o godi arian yn eu cymunedau eu hunain.

Gwirfoddolodd y myfyrwr PhD Bradley Neal fel Futuremaker a dewisodd gymryd rhan ar Ddiwrnod Rhoi eleni – er mwyn helpu i chwalo'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cyflawni eu nodau.

Ar gyfer ei weithgarwch codi arian, cymhwysodd sgiliau o'i BSc yng Ngwyddorau'r Amgylchedd gyda'r Brifysgol Agored, ynghyd â'i angerdd ar gyfer y byd naturiol, a chynhaliodd wers tacsonomeg ar droed, a ddogfennodd ar Twitter.

Y peth mwyaf cyffrous am fod yn Futuremaker oedd rhannu fy angerdd ar gyfer ein byd naturiol, a'r balchder sydd gennyf wrth rannu sgiliau a ddysgais wrth ddilyn fy nwy radd, yn ogystal â dangos y cyfoeth anhygoel o fannau lled-naturiol gwyth sydd gennym yn Milton Keynes. Bydd y byd yn lle gwell pan fyddwn wedi cael gwared ar y rhwystrau i addysg, ac mae'r Diwrnod Rhoi yn gam tuag at hynny.



Cefais fy ysgogi i fod yn Futuremaker i gefnogi sefydliad rwy'n ei garu ac i annog eraill i weld cymuned mor anhygoel yw Teulu'r Brifysgol Agored.



Bradley Neal
Myfyrwr PhD



Cerddodd Bradley drwy Ddyffryn Tattenhoe a Choetir Howe gan nodi unrhyw beth diddorol a welodd ar ei daith. "Roedd yn gymaint o hwyl, gwelais lawer o bethau a dysgais lawer hefyd. Y peth gorau oedd darganfod rhywbeth newydd, dŵl hyfryd o gribau San Ffraid (llun uchod), yn nodi ei bod yn debygol bod yr ardal hon yn hen iawn. Llwyddais hefyd i dreblu fy nharged, ynghyd ag annog pobl i roi i achos da. Rwy'n bwriadu gwneud hyn eto'r flwyddyn nesaf, gydag o leiaf un sŵolegydd (fy frind gorau, Ellen!) a llond llaw o ecolegwyr gwyth eraill sy'n ffrindiau i mi."

Os ydych chi'n ystyried bod yn Futuremaker ar gyfer Diwrnod Rhoi nesaf Y Brifysgol Agored, mae gan Bradley gyngor i chi. "Mwynhewch eich hun. Dewisais i rywbeth roeddwn yn meddwl y byddwn i'n dda am ei wneud, a rhywbeth y gallai pobl eraill ei fwynhau. Roedd fy syniad yn anghonfensiynol, ond cafodd digon o bobl eu darbwyllo ei fod yn syniad digon hwyliog i gefnogi'r Diwrnod Rhoi, ac wrth gwrs, dyna oedd y diben yn y lle cyntaf."

Drwy fod yn Futuremaker a chodi arian i'r Gronfa Dyfodol Agored, mae Bradley yn helpu i roi'r cyfle i eraill lwyddo. "Gall cael ysgoloriaeth newid bywyd ynddo'i hun felly roeddwn i'n gobeithio y gallai fy nghyfraniad helpu i ariannu addysg i rywun sydd wir ei angen."

Oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan y flwyddyn nesaf, neu ydych chi am wybod mwy am fod yn Futuremaker?

Dysgwch fwy a chofrestrwch eich diddordeb

www.bit.ly/registerfuturemaker

Helpu cŵn i wella ac achub bywydau



Achub bywydau: datblygu rhyngwyneb cŵn i ganfod canser

Wydech chi fod gan drwyn ci y gallu i arogleuo canser? Mae gwaith ymchwil yn dangos y gellir hyfforddi cŵn i adnabod arogl amrywiaeth o glefydau. Gallai cŵn sy'n canfod cyflyrau meddygol helpu i wella sut a phryd y caiff cleifion ddiagnosis o glefydau sy'n bygwth bywyd fel canser a chlefyd Parkinson. Gall hyn wella diagnosis cynnar ac, yn y pen draw, achub mwy o fywydau.

Er bod gan gŵn y gallu i arogleuo clefydau penodol mewn modd anhygoel o ddibynadwy, mae dod o hyd i ffyrdd o gyfleu hyn i bobl yn her fawr o hyd. Dyna lle mae eich cefnogaeth yn gwneud cymaint o wahaniaeth. Mae tîm o academyddion o'r Brifysgol Agored yn datblygu technoleg arloesol a allai fod yn hanfodol wrth frwydro yn erbyn canser.

Mae Medical Detection Dogs, cwmni sy'n torri tir newydd ym maes bio-ganfod gyda chŵn, yn cydweithio â thîm ACI (Rhyngweithio Cyfrifiadurol i Anifeiliaid) Y Brifysgol Agored i ddatblygu rhyngwyneb sy'n canolbwyntio ar gŵn sy'n galluogi cŵn sy'n canfod cyflyrau meddygol i gyfleu eu canfyddiadau'n fwy cywir. Gan mai dim ond gallu ymateb i samplau celloedd gydag 'ie' neu 'na' yr arferai'r cŵn allu ei wneud, mae'r Athro Clara Mancini a Thîm y Labordy ACI yn datblygu datrysiadau, yn cynnwys defnyddio dulliau dysgu peirianyddol, a fydd yn galluogi cŵn canfod i 'siarad' â thimau bio-ganfod fel erioed o'r blaen. Mae hyn yn cynnwys defnyddio rhydwethiau niwtral (neu systemau cyfrifiadurol sy'n dynwared ymennydd anifeiliaid), prosiect y mae Lucy Withington, myfyriwr MSc yn Y Brifysgol Agored yn ei archwilio a allai wella dibynadwyedd diagnosis, ynghyd â galluogi cŵn i nodi pa gam y mae'r clefyd wedi'i gyrraedd.

Mae haelioni cyn-fyfyrrwyr Y Brifysgol Agored yn helpu'r gwaith ymchwil arloesol hwn i barhau. Diolch i chi, mae'r tîm wedi gallu datblygu ail genhedlaeth o'i dechnoleg sydd eisoes wedi cael canlyniadau cadarnhaol a all arwain y ffordd ar gyfer darganfyddiadau yn y dyfodol. Mae eich cefnogaeth yn helpu ymchwilwyr i archwilio beth yn union sy'n bosibl ac rydym mor ddiolchgar i chi.



Gall cŵn ganfod arogl gwanedig

1 - 2 rhan fesul triliwn

Mae hynny'n cyfateb i arogleuo un llwy de o siwgr mewn dau bwlw nofio o faint Olympaidd!

Gall cŵn ganfod canser y brostad i

ddibynadwyedd o

90%

Ffynhonnell: Medical Detection Dogs



Enghraifft o'r switshys a'r rhyngwynebau a ddefnyddir i helpu cŵn cymorth i helpu eu cymdeithion dynol

Sut mae eich cefnogaeth yn helpu

Mae canser neu anabledd yn effeithio ar sawl person ar ryw adeg. Diolch i'ch cymorth parhaus, gall Y Brifysgol Agored barhau i weithio gyda'r anifeiliaid anhygoel hyn ar ddau brosiect ymchwil arloesol.

Cyda'ch help chi, rydym wedi gwneud cynnydd anhygoel yn gwtio ffiniau'r hyn sy'n bosibl. Mae cefnogaeth rhoddwyr ar gyfer y gwaith ymchwil arloesol hwn wedi golygu y gallwn fynd gam yn agosach at ddyfodol lle gellir achub bywydau mwy o gleifion drwy ganfod clefydau'n gynnar a lle gall pobl ag anabledau fyw'n annibynnol ochr yn ochr â'u cŵn.

Cyda'ch gilydd, rydych yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymaint o fywydau – rhai cŵn a phobl.

Gwella bywydau: helpu cŵn i gefnogi pobl ag anabledau

Mae gan fwy nag 11 miliwn o bobl yn y DU anabledd, a dyna pam mae cŵn cymorth symudedd yn hanfodol o ran gwella lles a bywydau unigolion. Mae'r cŵn hyn sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig yn helpu pobl i weithredu amrywiaeth o ddyfeisiau domestig fel peiriannau golchi, switshys goleuadau, a dolenni drysau, gan alluogi pobl i gyflawni eu tasgau pob dydd yn gymharol rhwydd a hyderus. Fodd bynnag, mae un anfantais fawr – mae'r rhan fwyaf o'r dyfeisiau hyn wedi'u dylunio ar gyfer pobl.

Mewn cydweithrediad â Dogs for Good, mae ymchwilwyr Labordy ACI Y Brifysgol Agored yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Maent yn dylunio switshys a rhyngwynebau sy'n ategu nodweddion synhwyrdd, gwybyddol a chorfforol cŵn, sy'n eu gwneud yn haws i gŵn eu defnyddio.

Diolch i haelioni cyn-fyfyrrwyr Y Brifysgol Agored a grant ymchwil gan Ymddiriedolaeth Elusennol PetPlan, mae Luisa Ruge, myfyriwr Doethuriaeth yn Y Brifysgol Agored, wedi datblygu rheolyddion diwifr sy'n galluogi cŵn cymorth symudedd i helpu eu cymdeithion dynol yn well. Mae'r rheolyddion yn galluogi cŵn i weithredu goleuadau a chyfarpar domestig fel tegellau yn ddiwifr. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y rheolyddion newydd yn llawer cyflymach i'r cŵn ddysgu sut i'w defnyddio a rhyngweithio â nhw yn llwyddiannus, a'u bod hefyd yn helpu i atgyfnerthu'r berthynas rhwng yr unigolyn a'r ci.

Mae'r Brifysgol Agored wedi cynnal gweithdy, a drefnwyd gan Dr Patrizia Paci, i gyflwyno'r rheolyddion i ddarparwyr gwasanaethau ac i ddarpar ddefnyddwyr er mwyn cael adborth hanfodol. Yn seiliedig ar hyn, maent bellach wedi addasu'r rheolyddion di-wifr fel y gall mwy o aelwydydd sydd â chŵn cymorth symudedd eu defnyddio ac maent wedi datblygu fersiwn wifrog o'r rheolyddion ar gyfer gweithredu drysau awtomatig mewn adeiladau cyhoeddus. Y cam nesaf yw archwilio llwybrau posibl ar gyfer cynhyrchu'r rheolyddion di-wifr ar raddfa fawr a'u dosbarthu i aelwydydd, ac ar gyfer gosod y rheolyddion gwifrog mewn adeiladau cyhoeddus yn Milton Keynes ac mewn dinasoedd eraill. Cyn belled, mae'r canlyniadau wedi bod yn galonogol iawn ac mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gall y rheolyddion wella amodau gwaith, amser hyfforddi a pherfformiad y cŵn yn sylweddol. Bydd hyn o fantais i'r anifeiliaid diwyd hyn a'r unigolion sy'n dibynnu arny'n nhw.

Diolch yn fawr iawn i deulu'r Brifysgol Agored am eich diddordeb a'ch cefnogaeth barhaus i'r prosiect hwn. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud wir yn newid bywydau, ac mae eich cefnogaeth yn helpu i alluogi'r cŵn i wella bywydau'r rheini sydd eu hangen fwyaf yn sylweddol.

I gael rhagor o wybodaeth
www.open.ac.uk/blogs/ACI



Rhyngwyneb bio-ganfod y gall cŵn ei ddefnyddio i nodi a ydynt wedi canfod clefyd

Gwneud byd o wahaniaeth

Ers dros 20 mlynedd, mae'r Brifysgol Agored wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraethau, cyrff anlywodraethol, sefydliadau cyllido a phartneriaid lleol i gyflwyno rhaglenni datblygu byd-eang unigryw.

Mae teulu'r Brifysgol Agored wedi helpu i ddod â'r prosiectau hyn yn ffw ac maent wedi gwneud gwahaniaeth anhygoel i filoedd o fywydau. Mae'n bleser gennym roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am rai o'r prosiectau cyffrous rydych wedi helpu i'w cyflawni.



Addysg i athrawon yn Affrica Is-Sahara – cefnogi athrawon i sicrhau addysg o ansawdd i bawb

Yn Affrica Is-Sahara, fydd 30 miliwn o blant byth yn cael y cyfle i ddechrau yn yr ysgol gynradd. Yn aml, bydd y rhai lwcus yn cael eu haddysgu gan athrawon heb eu hyfforddi, sy'n gwneud eu gorau, ond nad oes ganddynt y sgiliau addysgu i gynnig dyfodol gwell iddyn nhw. Er mwyn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt, byddai'n rhaid i'r rhan fwyaf o athrawon adael eu dysgwyr presennol heb athro, symud i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd a dod o hyd i'r arian ar gyfer mynd i'r coleg.

Mae dysgu yn yr ysgol yn cynnig ateb, oherwydd gall athrawon aros yn eu cymunedau a chymhwyso popeth y byddant yn ei ddysgu'r diwrnod canlynol yn y dosbarth i gefnogi eu dysgwyr.

Ers dros 15 mlynedd, mae rhwydwaith TESSA wedi ymrwmo i wella ansawdd addysgu drwy gefnogi athrawon ac addysgwyr athrawon i ddatblygu dulliau mwy cyfranogol yn yr ystafell ddsbarth. Wrth ei wraidd mae cronfa o Adnoddau Addysg Agored (OER).

Mae'r adnoddau hyn yn cynnig sawl ffordd i athrawon gyflwyno addysg ddifyr a chyffrous i ddisgyblion ysgol gynradd a fydd yn helpu i wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Caiff yr adnoddau eu creu ar y cyd â phartneriaid yn Affrica er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r plant a'u bod ar gael mewn pedair iaith, ar-lein ac all-lein.

“Yr hyn rwyf wedi'i ddysgu ar y cwrs hwn yw sut i feddwl y tu allan i'r bocs. Rwyf wedi dysgu am ffyrdd gwahanol o addysgu stori i blant a sut i gynnwys pawb wrth adrodd stori drwy wella sgiliau darllen y plant gan ddefnyddio'r holl strategaethau o ran cyflwyno darllen yn gynnar i blant.”

Cyfranogwr Cwrs TESSA

Diolch i gefnogaeth hael cyn-fyfyrrwyr a phartneriaid Y Brifysgol Agored, mae adnoddau TESSA wedi cyrraedd mwy nag 1.7 miliwn o athrawon ac addysgwyr athrawon mewn 14 o wledydd yn Affrica. Yn ddiweddar, diolch i gefnogaeth cyn-fyfyrrwyr, llwyddwyd i gynnig grantiau bach i bartneriaid TESSA ledled Affrica i'w help i ddatblygu eu harferion addysgu ac i hyrwyddo adnoddau TESSA i gydweithwyr.

Yn Zambia, defnyddiodd Charles, un o Swyddogion y Weinyddiaeth Addysg, grant TESSA bach i sefydlu rhaglen i hyfforddi athrawon ar sut i ddefnyddio adnoddau TESSA yn eu cyfarfodydd grŵp athrawon rheolaidd, gan alluogi iddynt wella ansawdd eu haddysgu yn yr ystafell ddsbarth. Mae Charles bellach yn goruchwylio datblygiad proffesiynol athrawon yn Nhalaith Ddwyreiniol Zambia, gan barhau i hyrwyddo adnoddau TESSA.



Yn Kenya, defnyddiodd Florence, darlithydd Addysg mewn prifysgol, grant bach i gynnal cyfres o weithdai er mwyn helpu athrawon mewn 53 o ysgolion i ddatblygu dulliau addysgu sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr. Nododd Florence o ganlyniad i'r gwaith hwn, bod athrawon yn defnyddio mwy o waith grŵp a gwaith mewn parau yn y dosbarth, a bod y plant yn cymryd mwy o ddiddordeb yn y gwersi.

Un o ganlyniadau'r rhaglen grantiau bach oedd gwella gallu ymysg y partneriaid.

Gweithredodd pedwar cydweithiwr TESSA fel hwyluswyr ar-lein ar gyfer cyflwyniad diweddar o gyrsiau ar-lein TESSA.

Nid oedd yr un ohonyn nhw erioed wedi gweithio fel hyn o'r blaen. Cawsant eu cefnogi a'u hyfforddi gan dîm TESSA ac maent bellach mewn sefyllfa i fynd ati i gefnogi dysgu ar-lein yn effeithiol. Yng nghyd-destun y pandemig presennol, gyda llawer o brifysgolion yn Affrica wedi symud eu haddysgu ar-lein, mae'r math hwn o arbenigedd yn cynrychioli cyfraniad gwerthfawr iawn.

Diolch i'ch haelioni chi, mae TESSA wedi trawsnewid ansawdd addysg i gymaint o bobl.



Gwella ansawdd addysgu er mwyn newid profiad miliynau o ddisgyblion yn yr ystafell ddsbarth

Prif ddiben TESS-India oedd gwella ansawdd addysg i gannoedd o filoedd o blant drwy fframwaith cwricwlwm agored a oedd yn rhedeg rhwng 2012 a 2019. Diolch i'ch cefnogaeth chi, mae mwy na miliwn o addysgwyr wedi cael budd o'r fenter.

Un o elfennau pwysicaf TESS-India yw pecyn offer o Adnoddau Addysg Agored (OER). Yr hyn sy'n gwneud y fenter mor unigryw yw'r ffaith ei bod yn amlieithog ac yn hyblyg, ac y gellir ei haddasu'n hawdd i ddiwallu anghenion lleol, sy'n amrywio'n sylweddol ledled y wlad.

Ers i'r prosiect ddechrau, mae'r effaith wedi arwain at y canlynol:

- Cynnydd yn lefelau cymhelliant athrawon a lefelau mwynhad ac ymgysylltiad disgyblion yn yr hyn maent yn ei ddysgu
- Cymerodd mwy na 50,000 o addysgwyr athrawon ac athrawon ran mewn Cwrs Ar-lein Agored Anferth (MOOC).
- Rhoddwyd Adnoddau Addysg Agored TESS-India ar waith mewn saith talaith â blaenoriaeth, gan gyrraedd mwy na miliwn o athrawon ac addysgwyr athrawon

Canolbwyntio ar ddysgu ar gyfer merched nad oes ganddyn nhw ysgol yn ystod cyfnod COVID-19

Rhaglen pum mlynedd yw SAGE wedi'i hanelu at ferched yn y glasod yn Zimbabwe nad ydynt mewn addysg mwyach. Y nod yw gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, cefnogi eu cyfnod pontio i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, a sicrhau bod ganddynt sgiliau bywyd.

Hyd yma, mae mwy na 6,000 o ferched mewn 11 o ranbarthau tlotaf Zimbabwe wedi cael eu hailgyflwyno i fyd addysg. Cyn belled, mae'r rhaglen wedi bod o fudd i ferched o amrywiaeth o gefndiroedd yn cynnwys y rheini ag anabledau a'r rheini nad ydynt erioed wedi bod i'r ysgol.

Dysgwyr yn cael sgwrs dros y ffôn â'i haddysgwyr cymunedol



Mae cynnwys y rhaglen a'r gweithgareddau dysgu wedi'u teilwra'n uniongyrchol i gyd-destunau cymdeithasol ac amcanion bywyd y merched ac maent wedi'u cynllunio i annog dysgu ar y cyd rhwng cyfoedion.

Ymhellach, mae'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ryngweithio a chysylltu â mwy na 350 o Addysgwyr Cymunedol, Cynorthwyr Dysgu ac athrawon cyfeillion ysgolion.

Cyn COVID-19, cynhaliwyd y prosesau addysgu a dysgu wedi'u hwyluso mewn 88 o ganolfannau dysgu yn y gymuned. Arweiniodd y pandemig at gau'r canolfannau a wynebodd y rhaglen heriau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen, a ysgogodd tîm Y Brifysgol Agored i addasu deunyddiau modiwlau presennol i gefnogi dulliau newydd o ddysgu i'r merched. Mae'r patrymau addysgu a dysgu hyblyg hyn bellach wedi'u hymgorffori yn y rhaglen, gan gynnig llwybrau amgen i'r merched.

O ganlyniad, deunyddiau SAGE yw'r sylfaen dystiolaeth allweddol ar gyfer polisi Addysg Anffurfiol y wlad, ac ym mis Mai 2021, cawsant eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Weinyddiaeth Addysg Gynradd ac Uwchradd Zimbabwe/ UNICEF i gefnogi'r ddwy filiwn o blant yn y wlad nad ydynt yn mynd i'r ysgol.

“Priodais yn ifanc a rhoi'r gorau i fynd i'r ysgol. Mae'r rhaglen hon wedi fy helpu i ailgydio yn fy addysg.”

Cyfranogwr SAGE

Diolch i gefnogaeth barhaus teulu'r Brifysgol Agored, mae mwy o ferched yn y glasod nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn Zimbabwe a ledled Affrica Is-Sahara wedi cael cyfleoedd a all newid bywydau.

Union Black: Trechu Hiliaeth mewn Addysg Uwch

Tynnodd adroddiad Universities UK "Tackling racial harassment in higher education" (Tachwedd 2020) sylw at yr anghydraddoldebau hiliol parhaus ar lefel sefydliadol ym mhob rhan o'r sector, gan dynnu sylw at faterion fel aflonyddu a microymosodiadau.

Galwodd ar brifysgolion i wella llythrennedd hiliol ymysg uwch-arweinwyr, staff a myfyrwyr, gyda beirniaid yn galw am gymryd camau ystyrlon.

Mewn ymateb, mae'r Brifysgol Agored a Phrifysgolion Santander (menter cyllido a chymorth strategol fyd-eang ar gyfer addysg uwch) wedi creu partneriaeth i greu adnodd addysgol er mwyn gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o bynciau fel hiliaeth, microymosodiadau hiliol, bod yn wyn a braint pobl wyn. Cwrs ar-lein yw "Union Black: Britain's Black Cultures and steps to anti-racism" wedi'i gynllunio i ysgogi newid diwylliannol ledled ein cymuned Addysg Uwch, gan archwilio Diwylliannau Pobl Dduon yn y DU a chwalu mythau er mwyn hysbysu, herio a chyfrannu at yr agenda gwrth-hiliaeth. Mae Union Black yn llawn cynnwys difyr gan gyfranwyr, yn cynnwys David Lammy, y Farwnes Shami Chakrabarti, Kwame Kwei-Armah, Ebony-Jewel Rainford-Brent, David James a llawer mwy, a bydd ar gael am ddim ar FutureLearn i fyfyrwyr a staff prifysgolion y DU dros y tair blynedd nesaf.

Bu grŵp llywio yn cynnwys uwch-arweinwyr a myfyrwyr o bob rhan o'r sector, yn cynnwys y Farwnes Valerie Amos a Karen Blackett, yn cydweithio'n agos â thim o arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr mewn addysgu ar-lein – dan arweiniad yr Athro Marcia Wilson, Deon Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Y Brifysgol Agored – i ddatblygu profiad dysgu dynamig sy'n ysgogi'r meddwl ac sy'n grymuso cyfranogwyr i ddatblygu eu hymrwymadau eu hunain at newid parhaus.

Caiff y cwrs ei lansio ym mis Medi 2021, gyda chant o grantiau datblygu £500 yr un gan Brifysgolion Santander ar gael i gyfranogwyr, yn ogystal â chyfle i fod yn rhan o un o ddiwyddiadau dathlu byw Union Black.



Tackling racial harassment in higher education



Darllen yr adroddiad

www.bit.ly/tacklingracismreport

Future
Learn

Union Black:
Diwylliannau du
Prydain a chymau
tuag at wrth-hiliaeth

September 2021

Bydd Ayo Akinwolere, ffigwr adnabyddus ar y teledu ers ei amser ar Blue Peter, yn ymuno ag Union Black fel cyflwynydd cwrs.



“Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gymryd rhan yn y cwrs. Mae wedi bod yn ddyhead gen i ers sawl blwyddyn i sicrhau mwy o chwarae teg mewn cymdeithas. Po fwyaf o sgysiau ystyrlon a gawn, y mwyaf o ddealltwriaeth fydd gennym ynghylch lle y ceir diffygion ac yn dilyn hynny, sut y gallwn gyflwyno'r newid sydd ei angen.”



Ymunwch â ni yn ein digwyddiad ar-lein nesaf: Drws Agored Byw

Dydd Mercher 13 Hydref
12.00 - 13.00



Dysgu mwy a chofrestru

alumni.open.ac.uk/opendoorlive